Rhif: **WG22771**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Rheoliadau perfformiadau plant: pryd caiff plant gymryd rhan mewn perfformiadau a'r seibiannau y mae'n rhaid iddynt eu cael

Dyddiad cyhoeddi: **1 Awst 2014**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **31 Hydref 2014**

# Rheoliadau perfformiadau plant: pryd caiff plant gymryd rhan mewn perfformiadau a'r seibiannau y mae'n rhaid iddynt eu cael

**Trosolwg**

Mae'r ddogfen hon yn ceisio barn ar drefniadau newydd i lywodraethu'r modd y caiff trefniadau perfformio plant eu rheoleiddio o ran pryd y caiff plant fod yn bresennol a chymryd rhan mewn perfformiadau a'r seibiannau sy'n rhaid iddynt eu cael.

**Sut i ymateb**

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **31 Hydref 2014** fan hwyraf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:
Deborah Campbell
Tîm Dysgwyr Amrywiol a Diogelu
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: ChildPerformanceConsultation@cymru.gsi.gov.uk

Ffôn 029 2082 5807

© Hawlfraint y Goron 2014
WG22771

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


1. Cyflwyniad 2

2. Cefndir a chyd-destun 3

3. Y cynigion 5

4. Sut i ymateb 10

5. Cynlluniau ar gyfer cyhoeddi'r canlyniadau 11

Atodiad: Fframwaith arfaethedig y cyfyngiadau amser a'r seibiannau gofynnol yn ôl grŵp oedran 12

# 1. Cyflwyniad

**1.1** Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r terfynau, sydd wedi'u gosod yn y rheoliadau[1], o ran pryd y caiff plant[2] gymryd rhan mewn perfformiadau a'r seibiannau y mae'n rhaid iddynt eu cael. Ar hyn o bryd ceir nifer o gyfyngiadau o ran pryd y gall plant berfformio, sy'n gwahaniaethu rhwng perfformiadau sydd i'w darlledu a rhai nad ydynt i'w darlledu.

**1.2** Barn Llywodraeth Cymru yw y dylid parhau i gael rheolau'n ymwneud â phryd y caiff plant berfformio, er mwyn diogelu eu hiechyd, eu lles a'u haddysg. Ond mae'r rheolau'n gymhleth ac yn gaeth ar hyn o bryd, ac nid ydynt bob amser er budd gorau'r plant. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig codi'r cyfyngiadau diangen gan gadw'r rhagofalon angenrheidiol ac mae'n dymuno clywed eich barn chi ar y fframwaith newydd arfaethedig sy'n pennu'r amgylchiadau lle caniateir i blant gymryd rhan mewn perfformiadau, yn ôl eu hoedran, y seibiannau y mae'n rhaid iddynt eu cael a chynigion i ganiatáu i hebryngwr sydd wedi'i gymeradwyo gan awdurdod lleol wneud penderfyniadau cyfyngedig i amrywio'r rheolau hyn, os yw'n credu ei fod er budd y plentyn.

**1.3** Gan fod y cynigion hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar blant sy'n cymryd rhan mewn perfformiadau, mae gennym ddiddordeb arbennig i glywed barn plant sy'n berfformwyr. Ceir manylion am sut i ymateb yn adran 4.

[1] Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968

[2] Mae'r gofynion yn gymwys i bob plentyn o fabanod i oedran gadael ysgol gorfodol. Nid yw hyn yn newid gyda chodi'r oedran cyfranogi, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sydd rhwng 16 ac 18 oed gyfranogi mewn rhyw fath o addysg neu hyfforddiant.

## 2. Cefndir a chyd-destun

**2.1** Mae angen i bobl sy'n cynllunio perfformiad sy'n cynnwys plant wneud trefniadau ar gyfer eu diogelwch a'u lles. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r cynhyrchydd wneud cais am drwydded oddi wrth awdurdod lleol y plentyn. Dim ond os yw'n fodlon na fydd addysg y plentyn yn dioddef, a bod y cynhyrchydd wedi gwneud trefniadau addas a digonol i ddiogelu'r plentyn y dylai'r awdurdod lleol roi trwydded perfformio i blentyn. Ceir nifer o ofynion a rheolau hefyd, wedi'u gosod mewn rheoliadau, y mae'n rhaid i'r cynhyrchydd eu dilyn.

**2.2** Ar y cyfan mae'r fframwaith cyfreithiol cyfredol wedi bod yn effeithiol yn ei ddiben sef sicrhau bod plant sy'n berfformwyr yn cael eu diogelu. Serch hynny, bu'n weithredol ers y 1960au, ac mae rhai agweddau bellach wedi dyddio.

**2.3** Yn 2012, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru a'r Adran Addysg ar gynigion i ddiwygio'r ddeddfwriaeth. Roedd yr ymatebion i lawer o'r cynigion ymgynghori'n rhanedig, yn enwedig lle'r oeddent yn effeithio ar y cydbwysedd rhwng caniatáu i blant fanteisio ar gyfleoedd i berfformio a'u diogelu rhag risg diangen. Nid yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu cymryd unrhyw gamau a allai olygu llai o ddiogelu i blant pan fyddant yn cymryd rhan mewn perfformiadau, na diwygio'r fframwaith cyfreithiol yn llwyr.

**2.4** Dynododd yr ymgynghoriad rai rhwystrau sy'n gallu atal plant rhag manteisio ar gyfleoedd i berfformio, ac sydd â diben cyfyngedig. Amlygwyd y problemau hyn pan basiwyd Deddf Plant a Theuluoedd 2014 yn Senedd y DU ac mae cyfyngiadau ar y mathau o berfformiadau y gellid trwyddedu plant dan 14 i gymryd rhan ynddynt wedi'u dileu yng Nghymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig cymryd camau pellach i wneud y canlynol:

- dileu'r gofyniad yn y rheoliadau i ddarparu tystysgrif feddygol cyn rhoi trwydded. Diben y dystysgrif yw profi bod y plentyn yn ffit i berfformio, ond mae awdurdodau lleol yn dweud wrthym na ddylai hyn fod yn angenrheidiol yn y mwyafrif o achosion, a bod rhieni'n aml yn gorfod talu eu meddyg teulu i ddarparu tystysgrif heb fod rheswm da am hynny. Pan ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar hyn yn 2012, roedd cefnogaeth drwy'r trwch i gael gwared â'r gofyniad hwn.

- cynorthwyo awdurdodau lleol ac eraill i ddatblygu canllawiau ymarfer gorau. Byddwn yn gweithio gyda'r Adran Addysg a phartneriaid allweddol ar y canllawiau hyn a disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni.

- dileu'r cyfyngiadau diangen ar y gwahanol fathau o berfformiad y caiff plentyn gymryd rhan ynddynt ar un diwrnod ac anghysonderau rhwng y rheolau ar

gyfer perfformiadau nad ydynt yn cael eu recordio neu eu darlledu a'r rhai sydd. Nid ydym ni'n gweld unrhyw gyfiawnhad dros y cyfyngiadau a'r gwahaniaethau hyn, cyhyd â bod y mesurau diogelu cyffredinol sy'n ymwneud â'r nifer o oriau a gaiff eu treulio'n perfformio ac ar ba amser o'r dydd (sef yr hyn sydd yn yr ymgynghoriad hwn) mewn grym.

**2.5** Rydym ni'n cynnig newid yr ystod gyfredol o reolau sy'n ymwneud â phryd y caiff plant berfformio a'r seibiannau y mae'n rhaid iddynt eu cael o fewn fframwaith symlach. Yr egwyddorion canlynol sydd wedi llywio'r fframwaith hwn:

- dylai'r un cyfyngiadau fod yn gymwys, p'un ai yw'r perfformiadau'n cael eu darlledu ai peidio
- lle ceir cyfyngiadau gwahanol ar hyn o bryd yn y perfformiadau sy'n cael eu darlledu a'r rhai nad ydynt yn cael eu darlledu, yn gyffredinol y lleiaf cyfyngol a'r symlaf o'r ddau yw'r rhai y dylid eu mabwysiadu
- dylid dileu neu leihau unrhyw gyfyngiadau eraill os yw'n amlwg nad oes unrhyw fudd iddynt o ran diogelu
- dylai plant iau gael mesurau diogelu cryfach na phlant hŷn er mwyn gwarchod eu hiechyd a'u lles
- dylid cadw unrhyw rai o'r cyfyngiadau presennol sydd â diben clir o ran diogelu plant sy'n berfformwyr.

Mae'r tabl yn Atodiad yn crynhoi'r sefyllfa bresennol a'n cynigion ni. Byddem yn croesawu eich barn ar y cynigion penodol canlynol.

# 3. Y cynigion

## 3.1 Oriau y caiff plentyn fod mewn lleoliad perfformio

Yn aml gall y cyfnod y bydd plentyn yn ei dreulio yn y theatr neu ar set ffilm fod yn hirach o lawer na'r amser y bydd yn ei dreulio'n perfformio. I ddiogelu iechyd a lles plant, ceir rheolau'n ymwneud â'r uchafswm o oriau y caiff plentyn fod mewn lleoliad perfformio.

Ar hyn o bryd, ar gyfer perfformiadau ar wahân i rai sy'n cael eu darlledu neu eu recordio, caiff plentyn gymryd rhan mewn mwy nag un perfformiad neu ymarfer ar yr amod nad yw'n bresennol am dros 6 awr. Nid yw'r cyfyngiad hwn yn cael ei adlewyrchu yn y rheolau ar gyfer perfformiadau sy'n cael eu darlledu, felly cynigir ei ddileu.

Rydym yn cynnig cydweddu'r rheolau sy'n gymwys i berfformiadau nad ydynt yn cael eu darlledu gyda'r rheini sy'n berthnasol ar hyn o bryd i ddarlledu, sy'n wahanol yn ôl oedran y plentyn. Y uchafsymiau newydd arfaethedig fyddai:

A. 9.5 awr i blant dros 9 oed

B. 8 awr i blant rhwng 5 – 8 oed (cynnydd o 30 munud)

C. 5 awr i blant rhwng 2 – 4 oed

D. 3 awr i blant rhwng 0 – 2 oed*

*ar hyn o bryd dim ond pan nad oes angen trwydded mae'r cyfyngiad hwn ar 0-2 oed yn gymwys – rydym ni'n cynnig ehangu'r warchodaeth hon i gwmpasu pob perfformiad sydd angen trwydded.

**Gweler cwestiwn 1 ar y ffurflen ymateb.**

## 3.2 Oriau y caiff plentyn berfformio

O fewn cyfyngiadau cyffredinol yr oriau y caiff plentyn fod yn bresennol, ceir cyfyngiadau hefyd ar gyfanswm yr oriau y caiff berfformio, a chyfyngiadau ar hyd unrhyw berfformiad. Unwaith eto, mae'r rhain yn amrywio gan ddibynnu a yw'r perfformiad yn cael ei ddarlledu neu ei recordio ai peidio. Mae'r cyfyngiadau ar berfformiadau sydd i'w darlledu'n fwy hael na'r rheini nad ydynt yn cael eu darlledu.

Rydym ni'n cynnig un set o gyfyngiadau'n seiliedig ar y rhai sy'n gymwys ar hyn o bryd ar gyfer darlledu, ond gan gynyddu cyfanswm yr amser perfformio i blant 9 oed a hŷn o 4 i 5 awr. Diben y cynnydd hwn yw caniatáu'r amser ychwanegol a allai fod yn angenrheidiol i blant hŷn sy'n cymryd rhan mewn dawns neu berfformiad o natur gorfforol gynhesu'n iawn, a bod yn barod yn gorfforol ar gyfer eu perfformiad. Y cyfyngiadau arfaethedig yw:

A. cyfanswm o 5 awr, gyda 2.5 awr mewn un cyfnod di-dor, i blant dros 9 oed

B. cyfanswm o 3 awr, gyda 2.5 awr mewn un cyfnod di-dor, i blant rhwng 5 - 8 oed

C. cyfanswm o 2 awr, gyda 30 munud mewn un cyfnod di-dor, i blant rhwng 2 – 4 oed

D. cyfanswm o 1 awr, gyda 20 munud mewn un cyfnod di-dor, i blant rhwng 0 – 2 oed*

* ar hyn o bryd dim ond pan nad oes angen trwydded mae'r cyfyngiad hwn ar 0-2 oed yn gymwys – am nad yw'r plentyn wedi cymryd rhan mewn perfformiadau ar fwy na 3 diwrnod yn y 6 mis diwethaf. Rydym ni'n cynnig ehangu'r warchodaeth hon i gwmpasu pob perfformiad sydd angen trwydded.

**Gweler cwestiwn 2 ar y ffurflen ymateb.**

### 3.3 Yr amser cynharaf y caiff plentyn fod yn y lleoliad perfformio

Mae hwn yn amrywio rhwng 7am a 10am, yn ôl oedran y plentyn ac a yw'r perfformiad yn cael ei recordio neu ei ddarlledu ai peidio. Nid yw'n glir pam y dylai'r amser cynharaf amrywio yn ôl grŵp oedran. A chymryd bod mesurau diogelu eraill yn bodoli mewn perthynas â'r oriau y caiff plant fod yn bresennol a pherfformio, rydym ni'n ystyried cydweddu'r amser dechrau cynharaf i bob grŵp oedran, sef 7am.

**Gweler cwestiwn 3 ar y ffurflen ymateb.**

### 3.4 Yr amser hwyraf y caiff plentyn fod yn y lleoliad perfformio.

Ar hyn o bryd mae'r amseroedd yn amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau oedran. Mae'r amseroedd hwyraf yn llawer mwy caeth ar gyfer perfformiadau sy'n cael eu darlledu neu eu recordio na'r rhai nad ydynt. Y terfyn ar gyfer perfformiadau darlledu yw 7pm i blant sy'n 9 oed a hŷn, a 4.30pm i'r rhai sydd dan 9 oed. Mae'r cyfyngiadau hyn yn rhy gaeth, ac wedi golygu bod plant wedi methu â chael trwydded i gymryd rhan mewn perfformiadau gyda'r nos sy'n cael eu ffilmio neu eu darlledu.

Rydym ni'n cynnig un set o gyfyngiadau ar yr amser hwyraf y caiff plant fod yn bresennol, yn seiliedig ar eu hoedran:

A. Dim plant dros 5 oed yn bresennol ar ôl 11pm

B. Dim plant rhwng 2 – 4 oed yn bresennol ar ôl 10pm,

C. Dim plant dan 2 oed yn bresennol ar ôl 4pm*.

*ar hyn o bryd dim ond pan nad oes angen trwydded mae'r cyfyngiad hwn ar 0-2 oed yn gymwys – rydym ni'n cynnig ehangu'r warchodaeth hon i gwmpasu pob perfformiad sydd angen trwydded.

**Gweler cwestiwn 4 ar y ffurflen ymateb.**

## 3.5 Gofynion Seibiannau

Beth bynnag yw natur y perfformiad, mae angen seibiannau priodol ar blant drwy'r dydd i gael prydau bwyd a gorffwys. Mae'n bwysig fod plant yn cael y seibiannau a'r prydau sydd eu hangen arnynt. Rydym ni'n cynnig y dylai'r rheoliadau barhau i osod isafswm o ran amlder a hyd seibiannau, yn ôl grŵp oedran.

Ar hyn o bryd, y gofynion ar gyfer perfformiadau ar wahân i'r rhai sy'n cael eu darlledu neu eu recordio yw bod rhaid cael toriad o 1.5 awr rhwng perfformiadau neu ymarferion ar unrhyw ddiwrnod. Mae'r rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer lleihau'r toriad hwn i 45 munud, ond dim ond ar 2 ddiwrnod yn ystod un wythnos a dim ond os nad yw'r plentyn yn bresennol yn y lleoliad perfformio am gyfanswm o dros 6 awr. Nid oes gofynion ar gyfer seibiannau am fwyd.

Os yw perfformiad yn cael ei ddarlledu neu ei recordio, mae amlder a hyd seibiannau, gan gynnwys ar gyfer prydau bwyd, wedi'u pennu'n fanylach. Rydym ni'n ystyried fframwaith ar gyfer seibiannau gorfodol yn seiliedig ar y gofynion cyfredol ar gyfer perfformiadau sy'n cael eu darlledu.

Amlder seibiannau

Rydym ni'n cynnig y gofynion canlynol ar gyfer amlder seibiannau:

A. Rhaid i blant dros 5 oed gael seibiant bob 2.5 awr; 3 seibiant mewn 8 awr, a rhaid i 1 fod ar gyfer pryd o fwyd.

B. Rhaid i blant rhwng 2 – 4 oed gael seibiant pob 30 munud.

C. Rhaid i blant rhwng 0 – 2 oed gael seibiant pob 20 munud.

**Gweler cwestiwn 5 ar y ffurflen ymateb.**

Hyd y seibiannau

Ar hyn o bryd rhaid i blant dros 5 oed gael seibiant o 1.5 awr rhwng perfformiadau byw. Os yw'r perfformiad yn un byr, dyweder deng munud, mae'r gofyniad am seibiant o 1.5 awr yn ymddangos yn anghymesur. Rydym ni o'r farn y dylid lleihau isafswm y seibiant ar gyfer perfformiadau sy'n llai nag 1 awr o hyd i 45 munud.

**Gweler cwestiwn 6 ar y ffurflen ymateb.**

Ar gyfer pob grŵp oedran, rydym ni'n cynnig na ddylai unrhyw seibiant fod yn llai na 15 munud (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd) ond rydym ni'n ystyried a oes modd lleihau hyd seibiannau ar gyfer prydau bwyd o 1 awr o leiaf (fel sy'n digwydd ar hyn o bryd) i 45 munud. Byddai hyn yn cyd-fynd â'r cynnig uchod.

**Gweler cwestiwn 7 ar y ffurflen ymateb.**

## 3.6 Barn yr Hebryngwr

Mae'n ofynnol i blant sy'n perfformio dan drwydded gael cwmni hebryngwr. Yr hebryngwr sy'n gyfrifol am edrych ar ôl plant yn ystod yr holl ymarferion a'r perfformiadau. Ar hyn o bryd caiff yr hebryngwr ganiatáu i blentyn berfformio ar y llwyfan am hyd at 30 munud yn hirach na'r hyn a nodir yn y rheolau. Mae hyn yn gymwys i berfformiadau darlledu trwyddedig yn unig.

Er ei bod yn bwysig cael fframwaith i sicrhau nad yw plant yn cael eu gorweithio a bod digon o amser yn cael ei neilltuo iddynt orffwys a chysgu, y ffaith yw bod sioeau byw ac amserlenni ffilmio yn gallu rhedeg yn hwyr o dro i dro. Rydym ni'n cynnig y dylai hebryngwyr allu gwneud penderfyniadau am bob math o berfformiad, os yw'n glir nad yw hyn yn niweidiol i iechyd a lles y plentyn. Rydym ni hefyd yn ystyried a ddylent gael cytuno y caiff sesiwn ddod i ben hyd at awr yn hwyrach, yn hytrach na 30 munud.

**Gweler cwestiynau 8a a 8b ar y ffurflen ymateb.**

## 3.7 Isafswm hyd seibiannau dros nos

Mae faint o gwsg sydd ei angen ar blant yn lleihau'n raddol wrth iddynt dyfu o fabandod i fod yn oedolion. Mae pob plentyn yn wahanol, ond yn gyffredinol[3]:

- mae angen tua 12-14 o oriau o gwsg ar blant bach (gan gynnwys cwsg yn ystod y dydd)
- mae angen 11-12 o oriau o gwsg ar blant cyn oed ysgol (3-5 oed)
- mae angen 10-11 o oriau o gwsg ar blant oed ysgol
- mae angen 9-10 o oriau o gwsg ar blant yn eu harddegau.

Ar sail hyn, a'r hyn yr oedd plant yn ei ddweud wrth ymateb i'r ymgynghoriad diwethaf (fod faint o gwsg maen nhw'n ei gael rhwng sesiynau'n bwysicach na hyd y sesiwn a bod angen amser arnynt i dawelu ar ôl y perfformiad) rydym ni'n cynnig:

- y dylai plant 2[4] i 12 oed gael toriad o 14 awr o leiaf rhwng diwedd un perfformiad a pherfformiad y diwrnod canlynol

[3] Coleg Brenhinol y Seiciatryddion: http://www.rcpsych.ac.uk/healthadvice/parentsandyouthinfo/parentscarers/sleepproblems.aspx

- y dylai plant tair ar ddeg oed a hŷn gael toriad o 12 awr o leiaf rhwng perfformiadau.

**Gweler cwestiynau 9 a 10 ar y ffurflen ymateb.**

### 3.8 Gwaith nos

Ar hyn o bryd caiff yr awdurdod lleol ganiatáu i blentyn gymryd rhan mewn perfformiad ar ôl yr amser hwyraf a ganiateir, ond dim ond os yw'r olygfa'n cael ei ffilmio yn yr awyr agored. Rydym ni'n cynnig estyn yr hyblygrwydd hwn i gwmpasu perfformiadau ar lwyfan ac sy'n cael eu ffilmio, dan do ac yn yr awyr agored. Ym mhob achos, byddai angen i'r awdurdod lleol ei fodloni ei hun fod y trefniant yn angenrheidiol. Fel sy'n wir ar hyn o bryd, byddem ni'n cadw'r gofyniad bod rhaid i blentyn gael o leiaf 16 awr o seibiant ar ôl unrhyw waith nos, ac os yw'n gwneud gwaith nos ar 2 noson yn olynol, na chaiff wneud rhagor am o leiaf wythnos arall.

**Gweler cwestiynau 11 a 12 ar y ffurflen ymateb.**

### 3.9 Cyfyngu ar berfformio ar ddiwrnodau olynol

Mae'n bwysig fod plant yn cael eu diogelu rhag cael eu gorweithio. Mae'r rheoliadau ar hyn o bryd yn pennu uchafsymiau gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o berfformiad: caniateir uchafswm o 6 diwrnod yn olynol ar gyfer perfformiadau nad ydynt yn cael eu darlledu, ond yr uchafswm yw 5 diwrnod mewn 7 os caiff unrhyw rai o'r perfformiadau eu darlledu. Rydym ni'n cynnig pennu 6 diwrnod yn olynol fel uchafswm i bob math o berfformiad.

**Gweler cwestiwn 13 ar y ffurflen ymateb.**

[4] Ein rhagdybiaeth yw fod plant dan 2 oed yn gallu cysgu mewn crud teithio, a bod oriau presenoldeb hefyd yn eu diogelu.

## 4. Sut i ymateb

**4.1** Mae ffurflen ymateb yr ymgynghoriad sy'n cynnwys y cwestiynau ar gael ar http://wales.gov.uk/consultations/education/when-children-can-take-part-in-performances-and-the-breaks-they-mush-have/?lang=cy Mae gofod ar y ffurflen i chi ychwanegu sylwadau. Dylid cwblhau'r ffurflen ymgynghori yn electronig os yw'n bosibl a'i hanfon i ChildPerformanceConsultation@Wales.GSI.Gov.UK. Neu gellir anfon ymatebion drwy'r post: Deborah Campbell, Tîm Dysgwyr Amrywiol a Diogelu, Cymorth i Ddysgwyr, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## 5. Cynlluniau ar gyfer cyhoeddi'r canlyniadau

**5.1** Bydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi a bydd canlyniadau'r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru'n cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru yn ystod hydref 2014.

## Atodiad: Fframwaith arfaethedig y cyfyngiadau amser a'r seibiannau gofynnol yn ôl grŵp oedran

| Oedran | Uchafswm presenoldeb a pherfformio | Rhwng | Seibiannau gofynnol |
|---|---|---|---|
| 13 - 16 | • Presennol am 9.5 awr<br>• Perfformio am 5 awr<br>• Uchafswm cyfnod perfformio 2.5 awr | 7am i 11pm | • Seibiant pob 2.5 awr.<br>• 3 seibiant mewn 8 awr, 1 ar gyfer pryd bwyd.<br>• 1.5 awr rhwng perfformiadau parhaus*<br>• Dros nos – 12 awr |
| 9 - 12 | • Presennol am – 9.5 awr<br>• Perfformio am - 5 awr<br>• Uchafswm cyfnod perfformio 2.5 awr | 7am i 11pm | Fel uchod ar wahân i:<br>• Dros nos – 14 awr |
| 5 - 8 | • Presennol am – 8 awr<br>• Perfformio am – 3 awr<br>• Uchafswm cyfnod perfformio 2.5 awr | 7am i 11pm | Fel uchod |
| 2-4 | • Presennol am - 5 awr<br>• Perfformio am - 2 awr<br>• Uchafswm cyfnod perfformio 30 munud | 8am i 10pm | • Seibiant pob 30 munud<br>• Rhaid defnyddio unrhyw amser pan nad yw'r plentyn yn perfformio neu'n ymarfer ar gyfer prydau bwyd, gorffwys a hamdden.<br>• Dros nos – 14 awr |
| 0-2 | • Presennol am – 3 awr<br>• Perfformio am – 1 awr<br>• Uchafswm cyfnod perfformio 20 munud | 9.30am – 4pm | • Seibiant pob 20 munud |

| |
|---|
| • Dim seibiannau sy’n fyrrach na 15 munud.<br>• Toriadau am brydau bwyd yn 45 munud o leiaf.<br>• Caiff yr hebryngwr estyn yr amser perfformio hwyraf hyd at 1 awr.<br>• Caiff yr awdurdod lleol ganiatáu i blentyn gymryd rhan ar unrhyw amser rhwng yr awr hwyraf a ganiateir ar un diwrnod a’r cynharaf ar y diwrnod canlynol (‘gwaith nos’) ond rhaid i’r plentyn gael o leiaf 16 awr o seibiant ar ôl hynny ac os yw’n gwneud gwaith nos am 2 noson yn olynol ni chaiff wneud dim mwy am wythnos.<br>• Uchafswm nifer y dyddiau olynol y caiff plentyn berfformio yw 6.<br>• Os yw plentyn yn perfformio am y nifer uchaf o ddyddiau a ganiateir am gyfnod o wyth wythnos, yna rhaid i’r plentyn gael dwy wythnos yn rhydd o unrhyw berfformio. |
| *Gellir lleihau’r egwyl rhwng perfformiadau i 45 munud o leiaf os yw’r perfformiad yn llai nag 1 awr o hyd |